

Llŷn

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty



Rhif 13 • 2019

www.ahne-llyn-aonb.org

Llygad Llŷn

Cylchlythyr AHNE Llŷn

.....
Yn y rhifyn hŷon
.....

Eglwys
Santes Fair

Hyfforddiant
Sgiliau Gwledig

Taclo'r
Efwr Enfawr

Newyddion o
Blas Carmel

Cromlech
Cefnamwlch



CROESO

Croeso i rifyn diweddaraf o Llygad Llŷn – sef newyddlen flynyddol ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Mae'r newyddlen hon yn darparu gwybodaeth am yr ardal sydd wedi ei dynodi yn un o dirluniau gwarchoddedig Cymru ers 1957. Cewch lawer o wybodaeth yma am brosiectau diweddaraf y Gwasanaeth AHNE a'r cydweithio sy'n digwydd i gynnal a gwarchod yr ardal a'i holl nodweddion arbennig. Mae gwybodaeth yma hefyd am ddiwyddiadau a gynhelir i godi ymwybyddiaeth am yr AHNE yn ogystal â chrynodeb o rai prosiectau sydd wedi elwa o gefnogaeth y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r Gwasanaeth AHNE yn arbennig o ddiolchgar o gael cyfle dros y misoedd diwethaf i gydweithio gyda Gareth Jenkins o Bwllheli ar brosiect ffotograffiaeth. Gan ddefnyddio ei ddawn arbennig, bu Gareth yn tynnu lluniau bendigedig o ogoniant gwlad Llŷn.

Mae'r prosiect hwn wedi sicrhau stôr o luniau hyfryd fydd yn effeithiol iawn wrth eu defnyddio i hyrwyddo'r ardal a chodi ymwybyddiaeth am wahanol safleoedd neu nodweddion diddorol. Oni nodir yn wahanol, lluniau Gareth sydd i'w gweld yn y newyddlen hon.



Cyhoeddwyd gan
Wasanaeth AHNE Llŷn



Argraffwyd gan
Wasg Carreg Gwalch,
Llwyndyrys a Llanrwst



Lluniau gan
Gareth Jenkins
(oni nodir yn wahanol)

Llun clawr
Yr Eifl o Gyrn Ddu

CYNNWYS

Awyr Dywyll yn Llŷn	3
Gwella Amgylchedd yr AHNE	4-7
Bywyd Gwyllt	7
Crwydro Trefor	8
Safleoedd Diddorol yn yr AHNE	9
Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy	10-14
Diweddariad ar brosiect CHERISH	15
Map o AHNE Llŷn	16

RHOWCH EICH BARN!

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich adborth am y rhifyn diweddaraf o Llygad Llŷn. Rydym hefyd yn croesawu eich adborth am waith Gwasanaeth AHNE Llŷn ac yn croesawu syniadau am brosiectau newydd a chyfle i gydweithio. Cysylltwch ar bob cyfri!

MANYLION CYSWLLT

Gwasanaeth AHNE Llŷn
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

Ffôn 01758 704 155 | 01758 704 176

E-bost ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan www.ahne-llyn-aonb.org

TÎM AHNE LLŷN – Mae dau aelod o staff yn gweithio yn y Gwasanaeth:

Bleddyn Prys Jones
Swyddog AHNE Llŷn

Fel Swyddog AHNE Llŷn mae Bleddyn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar weithgareddau creiddiol yr AHNE, materion cenedlaethol, a'r gwaith o baratoi a gweithredu'r Cynllun Rheoli.

Elin Wyn Hughes
Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn

Fel Swyddog Prosiectau mae Elin yn arwain ar brosiectau yn deillio o'r Cynllun Rheoli ac yn gweinyddu grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Hefyd, bydd yn trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am AHNE Llŷn a chynorthwyo i ddiweddarau'r Cynllun Rheoli.

Awyr Dywyll yn Llŷn

Erbyn hyn mae goleuadau nos amhriodol a gormodol yn cael ei adnabod fel math o lygredd amgylcheddol. Mae ardaloedd eang o oleuadau yn effeithio ar gymeriad ardaloedd, lles pobol a bywyd gwyllt.

Yn ystod 2018 cynhaliwyd arolwg o'r awyr dywyll yn Llŷn ar ran y Gwasanaeth AHNE gan gwmni Awyr Dywyll Cymru. Derbyniwyd grant gan Llywodraeth Cymru i dalu am y gwaith hwn. Dangosodd yr arolwg fod awyr y nos yn dywyll iawn mewn rhannau o'r ardal ac ychydig iawn o lygredd golau sy'n bod. Gyda'r wybodaeth yma y bwriad yw ymchwilio i'r posibilrwydd o gael statws awyr dywyll rhyngwladol i ardal Llŷn.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri eisoes wedi derbyn statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Rhyngwladol ac mae AHNE Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy hefyd yn gweithio tuag at ymgeisio am y dynodiad. Oherwydd hynny penderfynwyd datblygu prosiect ar y cyd rhwng yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Ngogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri i godi ymwybyddiaeth, cynnal digwyddiadau a gweithio ar y dynodiad awyr dywyll. Penodwyd swyddog prosiect i arwain y gwaith a bu i Dani Robertson o Ynys Môn ddechrau yn y swydd yn Ionawr 2019.

Mae'r Statws Awyr Dywyll yn gydnabyddiaeth ryngwladol a roddir gan y Sefydliad Awyr Dywyll Rhyngwladol (International Dark Sky Association – IDA) i fannau trwy'r byd ble mae awyr dywyll naturiol y nos o safon uchel a llygredd golau yn isel. Mae'r llefydd hyn yn cynnig cyfle i weld y sêr a rhyfeddodau'r bydysawd ar eu gorau ac yn hafan i ymwelwyr a seryddwyr. I gael mwy o wybodaeth am waith yr International Dark Sky Association ewch i www.darksky.org.

Bydd y newyddion diweddaraf am y prosiect Awyr Dywyll i'w weld ar ein gwefan ac yn y wasg leol neu gallwch gysylltu yn uniongyrchol gyda'r swyddog prosiect, Dani Robertson - Dani.Robertson@eryri.llyw.cymru.



Gwella Amgylchedd yr AHNE

Mae'r Gwasanaeth AHNE, ein cydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd, ein partneriaid a gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf yn cwblhau sawl prosiect yn llwyddiannus. Mae'r prosiectau dan sylw wedi amrywio yn fawr. Bu gwaith cynnal a chadw ar safleoedd hanesyddol pwysig a gwella mynediad tuag atynt, bu ymrafael â phlanhigyn ymledol ar Afon Soch a chynhaliwyd cyfres o hyfforddiant sgiliau gwledig.

Cromlech Cefnamwlch

Llwyddwyd i sicrhau nawdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau gwella mynediad, a gwnaethpwyd gwelliannau ym Mynydd Nefyn a Chilan. Bu gwaith hefyd ym mhlwyf Tudweiliog – ar safle Cromlech Cefnamwlch.

Mae'r Gromlech hon (a elwir hefyd yn Coetan Arthur) i'w gweld yn y cae ar lethrau Mynydd Cefnamwlch os ewch ar y lôn gefn o Sarn Mellteyrn i gyfeiriad Tudweiliog.

Bu'r prosiect yn gwella'r llwybr cyhoeddus sydd yn arwain at y gromlech drwy ail-godi waliau terfyn a chlririo coed oedd yn achosi rhwystr. Gosodwyd arwyddbost yn y lôn hefyd yn ogystal â rheiliau newydd o gwmpas y gromlech ei hun.

Mae'r gromlech hon yn un o'r amryw siambrau claddu yn Llŷn – strwythurau trawiadol a godwyd mae'n debyg i gladdu rhywrai o bwys yn y gymdeithas yr oeddynt yn byw ynddi.

Rydym fel Gwasanaeth yn ddiolchgar iawn i deulu Wynne-Finch, Stâd Cefnamwlch am eu caniatâd a'u cydweithrediad parod gyda'r prosiect hwn.



Gwasanaeth AHNE Llŷn



Gwasanaeth AHNE Llŷn



Hyfforddiant Sgiliau Gwledig

Llun: Gwasanaeth AHNE Llŷn



Porth Gwylan

Llun: Gwasanaeth AHNE Llŷn

Mae cloddiau traddodiadol a waliau cerrig sychion yn nodweddion amlwg yn nhirlun Llŷn. Strwythurau dynol ydynt i rannu'r caeau a chreu terfynau i lonydd bach y wlad. Fe'u codwyd yn wreiddiol dros gannoedd, os nad filoedd o flynyddoedd yn ôl.

Mewn partneriaeth rhwng Gwasanaeth AHNE Llŷn, Coleg Meirion Dwyfor Glynllifon a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, trefnwyd cyfres o hyfforddiant ar gyfer meithrin sgiliau i gynnal a chadw'r cloddiau a waliau cerrig sychion. Bu'r hyfforddiant cloddiau ar dir fferm Porth Gwylan, Tudweiliog a chynhaliwyd yr hyfforddiant waliau cerrig sych yn Llithfaen, ar rannau o'r Wal Fawr – strwythur ar lethrau'r Eifl sydd â chryn hanes iddi*.

Dymunwn ddiolch i bawb fu'n cydweithio gyda ni ar y prosiect hwn ac i'r tir-feddiannwyr. Diolchwn hefyd wrth gwrs i'r hyfforddwyr sef Dilwyn Williams a John Till am eu gwaith – er gwaetha'r tywydd!

*Codwyd y Wal Fawr ar ddechrau'r 19fed Ganrif yn sgîl Deddf a ddaeth i rym i gau'r tiroedd comin. Yn ôl y sôn, milwyr di-waith a ddychwelodd o frwydr Waterloo ai cododd – a bu gwrthwynebiad chwyrn gan y trigolion lleol. Roedd tyddynnod wedi cael eu hadeiladu ar y tiroedd hyn ac roeddynt hefyd yn darparu adnoddau pwysig i drigolion yr ardal. Bu terfysg yn Llithfaen a helynt i un gŵr yn arbennig o'r enw Robert William Hughes oedd yn byw yng Nghae'r Mynydd. "The King against Robert William Hughes, for a Riot" oedd y cyhuddiad yn ei erbyn. Fe'i anfonwyd i dreulio gweddill ei oes yn Botany Bay.



gwella amgylchedd yr AHNE



Llun: Gwasanaeth AHNE Llŷn

Ffynnon Saint

Bu gwaith clirio a gwella mynediad hefyd ar safle hanesyddol arall, ar lethrau Mynydd Rhiw. Mae Ffynnon Saint yn un o'r amryw ffynhonnau yn Llŷn oedd yn gyrchfan i'r pererinion ar y ffordd i Enlli – ac hefyd yn adnodd hanfodol i'r trigolion o'i chwmpas.

Mae Myrddin Fardd yn cyfeirio at Ffynnon Saint yn ei lyfr Llên Gwerin Sir Gaernarfon (1908) gan nodi fod yn arferiad gan ferched ar Ddydd Iau Dyrchafael fynd at y Ffynnon i olchi eu llygaid a thafu un bin i'r dŵr fel arwydd o ddiolchgarwch. Bu grŵp o wirfoddolwyr yn ddyfal iawn yn cynorthwyo gyda'r prosiect hwn gyda chefnogaeth Rob Jones, Cyngor Gwynedd. Cliriwyd gordyfiant o'r Ffynnon a bu gwelliant i'r llwybr tuag ati.

Hen Greiriau Llŷn

Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi bod yn gweithio ar brosiect ymchwil yn ddiweddar i gasglu gwybodaeth am y nifer fawr o greiriau neu arteffactau hanesyddol sydd wedi eu darganfod yma yn Llŷn ond sydd wedi cael eu symud o'r ardal i'w cadw neu eu harddangos.


Mae'r canfyddiadau yn ddi-ddorol tu hwnt – ac mae'n gyffrous iawn gweld sut fath o bethau sydd wedi goroesi.....



Brenin John Williams



Brenin John Williams II yn 1899



Brenin Love Pritchard

Coron Brenin Enlli

Un eitem yn arbennig sydd wedi cael cryn sylw dros y blynyddoedd yw coron Brenin Enlli, sydd bellach yn cael ei storio mewn amgueddfa yn Lerpwl. Mae hanes difyr iawn iddi – yn eitem oedd yn gysylltiedig â thraddodiad ar yr ynys ym mhen draw Llŷn.

Mae'n annelwig pa bryd y coronwyd brenin yno am y tro cyntaf, ond credir fod y traddodiad wedi cychwyn gydag ymweliad yr Arglwydd Newborough ar ddechrau'r 19fed ganrif. Cynhaliwyd parti a rhoddwyd hetiau i'r trigolion gyda rhubanau ychwanegol i'r brenin a'r frenhines – a oedd yn rhyw fath o arweinwyr cymunedol.

Ceir cofnod yn ddiweddarach o 1826 fod yr Arglwydd Newborough wedi ymweld eto ar gyfer seremoni coroni brenin newydd sef John Williams (Y Brenin John Williams I), Cristin Uchaf. Gallwn dybio mai'r Arglwydd Newborough fu'n gyfrifol am y goron ac iddo ddod â hi hefo fo ar gyfer y seremoni.

Teyrnasodd John Williams I o 1826 hyd at ei farwolaeth yn 1841. Boddodd wrth geisio croesi i'r Tir Mawr ac yntau ond yn 42 mlwydd oed. Roedd ei fab a'i etifedd yn dridiau oed ar y pryd (John Williams II).

Ceir hanes digon trist i'r etifedd hwnnw hefyd. Dyma ddyfynnu o wefan Ymddiriedolaeth Enlli (www.enlli.org);

“Dywedir iddo ef (John Williams II) deyrnasu am gyfnod byr, hyd 1918 o bosib, pan ymfudodd i'r Tir Mawr. Aeth y ddiod yn drech nag ef – diodydd a ddaeth i'r lan yn dilyn llongdrylliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf.”

Mae'n debyg mai i'r Wyrwys ym Mhllheli yr aethpwyd ag o, a bu farw yn fuan wedyn.

Mae tystiolaeth y defnyddiwyd y goron dan sylw yn bendant rhwng yr 1820au hyd at farwolaeth y brenin olaf, sef Love Pritchard yn 1927. Dyma gymeriad diddorol arall a cheir sawl hanes difyr amdano. Dywedir iddo gael ei ddyrchafu yn Frenin yn 1918. Ymfudodd i'r Tir Mawr fel nifer o'r ynyswyr yn ystod yr 1920au.

Fel nodwyd, cael ei storio mewn amgueddfa yn Lerpwl mae'r goron ar hyn o bryd – ac mae sawl ymgyrch wedi bod dros y blynyddoedd i'w dychwelyd i Gymru. Cafodd ei harddangos am gyfnod yn Amgueddfa Storiol ym Mangor ymron ddegawd yn ôl.

Creiriau Eraill

Ymysg creiriau eraill Llŷn – mae nifer wedi eu canfod yn y lleoliadau hanesyddol amlycaf, megis Tre'r Ceiri a Chastell Odo. Mae'r creiriau hyn yn amrywio o grochenwaith i offer dydd i ddydd. Ceir nifer fawr o weddillion o'r ffatri fwyelli ar Fynydd Rhiw hefyd sy'n dyddio yn ôl i'r cyfnod Neolithig.

O gyfnod diweddarach, mae amrywiaeth enfawr o eitemau. Ceir lluniau, llythyrau, dyddiaduron, dogfennau cyfreithiol, gweithredoedd, llyfrau cyfrifon, dillad, creiriau amaethyddol ac offer tŷ.

Ceir arteffactau hefyd sydd wedi eu canfod o amgylch yr arfordir megis nwyddau o long y Cyprian, a ddrylliwyd oddi ar arfordir gogleddol Llŷn yn Hydref 1881. Mae tamaid o angor hefyd o gyfnod Rhufeinig a ddarganfuwyd ym Mhorth Felen yn dystiolaeth o'r masnachu sydd wedi bod oddi ar ein harfordir ers miloedd o flynyddoedd.

Nod y Gwasanaeth AHNE yw defnyddio'r gwaith ymchwil cychwynnol hwn a datblygu prosiect pellach am greiriau Llŷn i godi ymwybyddiaeth amdanynt a dathlu ein treftadaeth arbennig. Bydd diweddariad am ein prosiectau diweddaraf i'w weld ar ein gwefan.

Taelo'r Efwr Enfawr

Yn ystod 2018, bu'r Gwasanaeth AHNE yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru ar brosiect i waredu'r Enfawr Enfawr, sef planhigyn ymledol, oddi ar lannau Afon Soch.

Ceir sawl enghraifft o safleoedd yn Llŷn ble mae planhigion estron wedi gafael – megis Jac y Neidiwr a'r Canclwm Siapaneaidd. Cyflwynwyd y rhywogaethau hyn o Asia i Brydain yn ystod yr 19fed Ganrif fel planhigion addurniadol ar gyfer gerddi. Bellach maent wedi ymledu i'r gwyllt ac yn bla mewn sawl llecyn megis tiroedd gwastraff, llwybrau cyhoeddus, parciau neu ar lannau afonydd.

Mewnforiwyd yr Efwr Enfawr i Brydain o Rwsia a De Georgia. Gall dyfu hyd at 10 troedfedd o uchder. Mae'n niweidiol i'r amgylchedd drwy amharu ar blanhigion cynhenid o'i gwmpas – ac hefyd mae'n beryglus iawn i iechyd pobl gan fod ei sudd yn gallu llosgi'r croen.

Mae'r gwaith ar Afon Soch yn brosiect hir-dymor, a'r gobaith yw y bydd yr Efwr Enfawr yn cael ei waredu'n llwyr – fel y gall bywyd gwyllt ffynnu ac y gall pobl elwa o amgylchedd ble mae afonydd yn cael eu rheoli yn dda.



Llun: Gwasanaeth AHNE Llŷn

Bywyd Gwyllt



Clywyd am sawl achos yn ddiweddar am bobl yn aflonyddu yn ddi-angen gyda'r byd natur o'u cwmpas. Er fod gennym oll yr hawl i fwynhau ein hamgylchedd arbennig a gwerthfawrogi'r amrywiaeth anhygoel o fywyd gwyllt sydd yma – mae'n bwysig i wneud hyn mewn modd nad yw'n amharu neu achosi niwed.

Morloi yw'r creaduriaid dan sylw. Adroddwyd am sefyllfaoedd ble bu pobl yn darganfod llooi bach ar eu pennau eu hunain ar draethau Llŷn. Roeddynt yna wedi ceisio cynorthwyo'r anifail i mewn i'r dŵr heb sylweddoli nad oedd angen unrhyw ymyrraeth gan fod y fam mwyaf tebyg allan yn y môr yn chwilio am fwyd. Yn anffodus, mewn un achos, bu i'r llo foddi (nid ydynt mor ifanc â hynny yn gallu nofio).

Gofynnir yn garedig i bawb fwynhau ond hefyd i barchu'r byd natur o'n cwmpas, ymddwyn yn gyfrifol a chadw at y Cod Cefn Gwlad. Cadwch eich pellter, ac er gwaethaf unrhyw deimlad y dylid ymyrryd, meddyliwch yn ofalus cyn gwneud hynny.

Mae Côt Morol Gwynedd (sydd i'w weld ar wefan Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau – www.penllynarsarnau.co.uk) yn ganllaw ar gyfer defnyddwyr llongau a chychod hamdden – yn cynnwys cychod modur, cychod hwyllo, dingis, badau personol, caiaes a chanŵs.

Os yn bryderus am anifail sy'n ymddangos ei fod sownd ar y lan, gellir cysylltu gyda'r RSPCA ar 0300 1234 999 neu'r British Divers Marine Life Rescue (www.bdmlr.org.uk) ar 01825 765 546 (07787 433 412 tu allan i oriau arferol).



Lluniau: Gareth Jones

Crwydro Trefor



Teithiau Cerdded



Ar Fai 18fed – byddwn yn arwain taith yn ardal Trefor. Taith ar y cyd â Chymdeithas Ted Breeze Jones yw hon.

Bydd rhan gynta'r daith yn crwydro Coed Elernion, sydd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wrth droed yr Eifl. Byddwn yna yn crwydro dros Glogwyn y Morfa a rhannau o'r Llwybr Arfordirol. Mae hwn yn gyfle gwych i fwynhau amrywiaeth eang o fywyd gwylt a dysgu am wahanol gynefnocedd.

Mae cofrestru o flaen llaw yn **hanfodol** drwy ffonio 01758 704 176 neu e-bost

ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

Dyma daith sy'n rhan o gyfres o ddigwyddiadau cymdeithasol eraill i werthfawrogi nodweddion arbennig Gwlad Llŷn. Cadwch lygad yn y wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol i wybod mwy neu cysylltwch â ni.



Safleoedd Diddorol yn yr AHNE

Eglwys Santes Fair, Penllech



Gydol mis Medi 2018, roedd drysau Eglwys Santes Fair, Penllech ar agor i'r cyhoedd fel rhan o gynllun blynyddol Drysau Agored gan CADW, sef gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

Mae Drysau Agored yn gyfle i bobl leol ac ymwelwyr archwilio trysorau cudd diwylliant a hanes Cymru, gyda safleoedd drwy'r wlad sydd fel arfer ar gau i'r cyhoedd ar agor i'w harchwilio yn rhad ac am ddim.

Lleolir Eglwys y Santes Fair yn hen blwyf Penllech rhwng Tudweiliog a Llangwnnadr. Er ychydig y tu allan i ffin yr AHNE - mae'n cyfrannu yn fawr at amgylchedd hanesyddol yr ardal ac mae CADW wedi ei rhestru yn Gradd II*. Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol yn yr oesoedd canol ac mae rhannau ohoni wedi goroesi o'r cyfnod hwnnw. Fe'i hail-adeiladwyd yn 1840 gan Samuel Jones. Fe'i gelwir yn Eglwys Santes Fair, ond ceir cyfeiriadau ati hefyd fel Eglwys Sant Belyn. Does dim gwybodaeth am Belyn, ond roedd Belyau yn un o ferched Brychan Brycheiniog ac yn chwaer i Nyfain (Nefyn). Nepell o'r eglwys ceir Tyddyn Belyn.

Elusen o'r enw Cyfeillion Eglwysi Di-Gyfaill sydd yn gofalu am yr Eglwys erbyn hyn. Mae'r elusen yn ymgyrchu dros eglwysi hanesyddol drwy Gymru a Lloegr sydd yn segur ac o dan fygythiad - ac maent yn berchen ar dros 50 ohonynt. Ceir sawl eglwys arall yng Ngwynedd yn eu meddiant - megis Eglwys Sant Baglan (Llanfaglan fer Caernarfon), Eglwys Sant Brothen (Llanfrothen), Eglwys Sant Beuno, Penmorfa ac Eglwys Sant Cynhaearn (Ynyscynhaearn). Ceir pedair ar Ynys Môn hefyd - yn Llantrisant, Llanbeulan, Llanfigael a Thal y Llyn ger Aberffraw.

Os am wybod mwy am waith elusen Cyfeillion Eglwysi Di-Gyfaill ac i weld sut gallwch eu cefnogi, edrychwch ar y wefan hon - www.friendsoffriendlesschurches.org.uk.

Yn ogystal, os am wybod mwy am ddiwyddiadau blynyddol cynllun Drysau Agored CADW, edrychwch ar www.cadw.llyw.cymru



Llun: Cai Erith

Capel Mair, Uwchmynydd

Yn ystod tywydd crasboeth 2018, daeth ambell olion hanesyddol diddorol yn amlwg megis hwn yn Uwchmynydd. Dyma olion Capel Mair (llun gan Cai Erith).

Mae'r safle yn agos i ben y grisiau sy'n arwain i lawr at Ffynnon Fair yn Uwchmynydd. Arferai fod yn gapel gorffwys y byddai'r pererinion yn ei ddefnyddio wrth aros eu tro i groesi i Ynys Enlli. Byddent yn croesi o Ogorf y Gath, ger Ffynnon Fair ar draws y Swnt i Fae'r Hendy ar Enlli. Câi'r Capel ei ddefnyddio hefyd i gadw'r cyrff ynddo cyn croesi i'r ynys i'w claddu.

Bu arlunydd o'r enw Moses Griffith (a aned ym mhlasdy Trygarn, Sarn) yn crwydro Cymru yn ystod y 18fed Ganrif gyda Thomas Pennant - naturiaethwr, teithiwr, awdur a hynafiaethydd enwog. Mae darlun gan Moses Griffith yn 1777 yn dangos yr adeilad yn afeilion yr adeg honno.

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r gronfa grant hon a sefydlwyd yn 2001 gan Lywodraeth Cymru yn ffynhonnell ariannol i gefnogi prosiectau ddaw a budd i gymunedau oddi fewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.

Mae prosiectau cymwys yn dod a buddion amgylcheddol, diwylliannol, economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau hynny.

Dyma flas ar rai o'r prosiectau sydd wedi eu cefnogi yn Llŷn dros y misoedd diwethaf.....

Tafarn yr Heliwr Nefyn



Mae prosiect cyffrous wrthi'n dwyn ffrwyth yn Nefyn, i ail-agor a datblygu Tafarn yr Heliwr. Mae hon yn dafarn hanesyddol, wedi'i lleoli ar Stryd Fawr y dref oddi fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig.

Yn fwy diweddar roedd yn dafarn fywiog a llewyrchus gyda chwsmeriaid o bell ac agos - fe'i hanfarwolwyd mewn cân gan y band Anweledig a bu'n fan cymdeithasol gwyth i lawer o fandiau byw. Chwith oedd ei gweld ar gau ers tro a'r adeilad yn edrych yn flêr.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ystod Ionawr 2018 er mwyn gweld â oedd diddordeb gan bobl leol i brynu ac adnewyddu Tafarn yr Heliwr fel tafarn gymunedol. Yn fuan wedi hynny, sefydlwyd pwyllgor i redeg y prosiect a dechreuwyd gwerthu siars i brynu'r adeilad.

Erbyn hyn, mae Tafarn yr Heliwr wedi ei brynu, ac er bod llawer o waith eto i'w gyflawni - mae gwaith caled y Pwyllgor a'r gefnogaeth sydd wedi bod i'r fenter yn ysbrydoliaeth ac mae cyfnod cyffrous iawn ar droed.

Bu cefnogaeth o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn gymorth i'r Pwyllgor i gynhyrchu taflenni gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth am gyfrannu siars ac er mwyn talu ffoedd maint fesurwr i asesu cyflwr yr adeilad a'r gwaith o baratoi cynlluniau. Gweler yma am y datblygiadau diweddaraf - www.tafarnyrheliwr.wordpress.com





Arddangosfa Neuadd Sarn

Cynhaliwyd arddangosfa hen luniau yn Neuadd Goffa Sarn Mellteyrn yn ystod mis Awst 2018 gyda nawdd y Gronfa, a bu'n llwyddiant mawr. Bu Pwyllgor y Neuadd yn brysur gyda'r trefniadau a rhoddwyd cyfle i bobl gymdeithasu a hel atgofion am wahanol gymeriadau a digwyddiadau a gweld sut mae sawl lleoliad ac adeilad wedi newid dros y blynyddoedd.

Roedd rhan o'r arddangosfa hefyd yn amserol iawn yn cyfleu erchyllter y Rhyfel Mawr a'i gysgod dros yr ardal a brawychus iawn yw gweld faint o drigolion Llŷn a gollwyd.

Roedd rhannau eraill o'r arddangosfa yn cynnwys hen greiriau ac offer amaethyddol – a hen luniau a hanesion pobl a fudodd o Llyn i chwilio am fywyd gwell yn ystod yr 19eg Ganrif. Roedd gwybodaeth er enghraifft am Gapel Enlli yn nhalaith Efrog Newydd, America. Codwyd y capel hwn yn 1848 pan fudodd nifer o drigolion Aberdaron ac Enlli i ardaloedd Remsen a Steuben.

Lluniau dyfrlliw Frances Elizabeth Wynne, Stâd Cefnamwlch oedd rhan arall ddiddorol o'r digwyddiad. Artist amatur oedd Frances, a aned yn 1835 yn ferch i Charles Wynne Griffith Wynne, perchennog stadau Cefnamwlch a'r Foelas. Mae dros ddwy fil o luniau gan Frances mewn bodolaeth ac mae nifer o'r rheini i'w gweld yn yr Amgueddfa Genedlaethol.

Roedd tua dau gant o'i lluniau i'w gweld yn yr arddangosfa ac yn dangos tirluniau a lleoliadau yn Llŷn yn ogystal â phobl gyffredin wrth eu gwaith. Roedd sawl llun hefyd o'i theulu yn mwynhau ar draethau Porth Ysgaden a Thowyn ac ar Fynydd Cefnamwlch.

Agorwyd y digwyddiad yn swyddogol gan berthynas i Frances, sef Mary Wynne-Finch cyn cael cyfle i fwynhau sgwrs gan John Dilwyn Williams am ei chefnidir, ei theulu a'i dawn arbennig.



Bws Arfordir Llŷn

Prosiect arall a ariannwyd yn ystod y flwyddyn oedd gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn – sy'n darparu cludiant ar yr arfordir rhwng Trefor ac Abersoch. Dyma wasanaeth gwerthfawr sy'n galluogi trigolion ac ymwelwyr i fwynhau harddwch yr ardal drwy deithio yn gynaliadwy.

Caiff ein Llwybr Arfordirol gwych ei hyrwyddo – yn ogystal â'r holl nodweddion arbennig fel bywyd gwyllt, safleoedd hanesyddol a'r porthladdoedd bychain difyr. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn hwb i'r busnesau lleol.

Os am fanteisio ar y gwasanaeth ardderchog hwn a chael cip ar yr amserlen ddiweddaraf, edrychwch ar y wefan hon – www.bwsarfordirllyn.co.uk.



Gŵyl Fwyd Pwllheli

Ar ddechrau Mehefin eleni, bydd Gŵyl Fwyd Pwllheli yn cael ei chynnal am y tro cyntaf. Dyma ddigwyddiad fydd yn dathlu a rhoi llwyfan i gynnyrch lleol, hyrwyddo cynladwyedd a rhoi hwb fawr i'r economi hefyd. Yn ogystal, bydd yr Ŵyl yn cryfhau'r ysbryd cymunedol yn yr ardal ac yn ennyn balchder ac yn rhoi cyfle a phrofiadau gwerthfawr i wirfoddolwyr.

Bydd nawdd o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn gymorth i drefnwyr yr Ŵyl gyda gwahanol elfennau megis trwyddedu, llogi stondinau, hyrwyddo, marchnata, creu gwefan, cyfathrebu ac adloniant.

Am yr wybodaeth ddiweddaraf, gweler yma – www.facebook.com/gwylfwydpwllheli

Taith Tridiau Llŷn

Bu dwy elusen leol, sef O Ddrws i Ddrws a Hosbis Dewi Sant yn cydweithio ar brosiect arloesol yn ystod 2018. Trefnwyd Taith Tridiau Llŷn – taith gerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir o Abersoch i Borthdinllaen – gyda'r elw yn cael ei rannu rhwng yr elusennau hynny.

Bu nawdd o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn gymorth i'r prosiect hwn farchnata yn llwyddiannus ac i ariannu hyfforddiant i wirfoddolwyr oedd yn cefnogi'r digwyddiad.


Cynhaliwyd dau gwrs yng Nghanolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog – Cwrs Cymorth Cyntaf a Chwrs Arweinydd Cerdded Iach. Rhoddwyd sgiliau a phrofiadau gwerth chweil fydd yn ddefnyddiol iawn i'r gwirfoddolwyr yn y dyfodol.

Casglwyd cyfanswm o bron i £3,000 ac meddai Sioned Williams ar ran Hosbis Dewi Sant,

Rydym yn gobeithio gweld y prosiect hwn yn dychwelyd yn 2019 ac yn dymuno pob llwyddiant i'r ddwy elusen bwysig hon – tarwch olwg yn y wasg leol am y datblygiadau diweddaraf.

“Hon oedd y daith gerdded gyntaf i ni ei threfnu ac rydym yn falch iawn o'r canlyniad. Ein bwriad yw adeiladu ar ein profiad a chynnal y digwyddiad eto flwyddyn nesaf, er mwyn dathlu harddwch naturiol hyfryd ein harfordir yma ym Mhen Llŷn.”





Neuadd Mynytho


Neuadd Mynytho

Heb os, mae ein neuaddau pentref yn adnoddau pwysig i gynnal ein cymunedau. Maent yn darparu lleoliadau hwylus ar gyfer pob math o ddigwyddiadau cymdeithasol ac mae'n bwysig eu bod mewn cyflwr addas, yn ynni effeithlon a gyda mynediad hwylus i bawb.

Bu Pwyllgor Neuadd Mynytho yn arwain prosiect i archwilio i gyflwr y ganolfan bentref. Dyma ganolfan gymdeithasol a diwylliannol bwysig a anfarwolwyd yn englyn R. Williams Parry – sydd i'w gweld ar y lechen sydd ar dalcen yr adeilad. Ymysg y digwyddiadau poblogaidd a gynhelir yn y Neuadd hon mae'r Eisteddfod Gadeiriol, a gynhelir ym mis Ebrill ac Arddangosfa Blodau a Chynnyrch yn ystod mis Awst.

Comisiynwyd adroddiad i gyflwr y Neuadd, gan adnabod gwaith angenrheidiol a'r costau ynghlwm â hynny. Bu aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cynnal diwrnod agored a dosbarthu holiaduron i'r gymuned. Roedd y rhan hwn o'r prosiect yn hollbwysig – sef ymgysylltu gyda'r trigolion lleol ac adnabod eu anghenion a'u dyheadau.

Mae modd dilyn datblygiadau pellach a chlywed mwy am ddigwyddiadau sydd ar y gweill yma – www.facebook.com/neuaddmynytho



Gŵyl Gelf a Barddoniaeth yn Aberdaron

Yn ystod 2018, bu nawdd o'r Gronfa yn gymorth i gynnal digwyddiad celfyddydol arbennig yn Aberdaron. Sefydlwyd yr Ŵyl arbennig hon yn 2014 a'r nod yw dod â phobl ynghyd i werthfawrogi gweithiau llenyddol a chelfyddydol, cerddoriaeth, pobl a lleoliadau a gysylltir gyda'r bardd RS Thomas a'r artist ME Eldridge – gŵr a gwraig sydd â chysylltiadau cryf gyda'r ardal.

Bu nawdd o'r Gronfa yn gymorth o ran hysbysebu a marchnata, costau siaradwyr gwadd a chyfranwyr a llogi cyfleusterau.

Mae'r digwyddiad erbyn hyn wedi tyfu ac yn ddatliad arbennig o'r diwylliant a'r dreftadaeth leol gan gynnig nifer o fuddion i'r ardal a'r busnesau bach lleol.

Bydd yr Ŵyl yn dychwelyd yn 2019 yn ystod penwythnos 21ain – 23ain Mehefin. Ymysg y cyfranwyr bydd Dr Rowan Williams, cyn Archesgob Caergaint. Bydd hefyd rhaglen o gerddoriaeth a barddoniaeth gyda Chôr Meibion Carnguwch a'r bardd Menna Elfyn – a bydd cyn Archesgob Cymru, y Parchedig Barry Morgan yn cynnal gwasanaeth yn Eglwys Hywyn Sant gyda chroeso cynnes i bawb. Bydd taith fws yn rhoi cyfle i ymweld a safleoedd perthnasol, gyda golygfeydd gwerth chweil o'r Enlli, Porth Neigwl, Porth Ysgo ac ymhellach draw o Eryri a Bae Ceredigion.

Am raglen llawn o'r digwyddiadau a thicedi edrychwch ar www.rsthomaspoeetry.co.uk

Be' Nesa' Llŷn



Benthyciad Di-Log

Cronfa fenthyciad di-log yw Be' Nesa' Llŷn.

Sefydlwyd y cynllun yn 2015 gan griw o bobl fusnes Llŷn i allu byw a gweithio yn eu milltir sgwâr drwy greu cronfa benthyciadau o'u harian eu hunain.

Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth ariannol o hyd at £5,000 i bobl leol i greu busnesau eu hunain, neu roi hwb i fusnes sydd eisoes yn bod.

Yn ogystal â chynnig cymorth ariannol, mae criw Be' Nesa' Llŷn yn cynnig cymorth busnes hefyd drwy rannu eu profiadau a'u sgiliau gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Menter Môn sy'n gweinyddu cronfa Be' Nesa' Llŷn o'u swyddfa ym Mhorthmadog a gellir cysylltu gyda Rhys Gwilym i drafod ymhellach:

- E-Bost – rhys@mentermon.com
- Ffôn – 01766 514 057

Prosiect Plas Carmel

Mae Prosiect Plas Carmel yn gynllun cyffrous sydd wedi derbyn cefnogaeth y Gronfa Datblygu Cynaliadwy dros y misoedd diweddar. Nod y prosiect yw diogelu hen gapel unigryw Carmel a leolir yn Anelog ger Aberdaron, adnewyddu'r Tŷ Capel ar gyfer ei osod, ac adnewyddu hen Siop Plas fel caffï a hwb gymunedol gydag adnoddau dehongli hanes cyfoethog yr ardal.

Dyma ddiweddariad gan Jen Rowlands, Cyd-Gysylltydd Prosiect Plas Carmel.

.....

Mae llawer o'r gwaith ar hyn o bryd yn cynnwys paratoi ceisiadau am arian o wahanol ffynonellau. Mae newidiadau eisoes i'w gweld ar y safle – mae to'r capel a'r tŷ wedi eu hadnewyddu, a'r ardd wedi ei thacluso. Bu aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc y Rhiw yn brysur yn plannu coed a thirlunio o amgylch y safle.

Rydym wedi bod yn cynnal cyfres o ddarlithoedd yn festri Capel Bethesda, Rhoshirwaun i ddod â'r gymuned at ei gilydd a chodi arian at y prosiect. Bu Glyn Roberts yn sôn am yr arlunydd rhyfeddol Frances Wynne a bu Elfed Gruffydd yn amlygu colledion yn y Rhyfel Mawr a chofebion ardaloedd Llŷn. Siaradodd Ioan Roberts am Philip Jones Griffith, y



Gwirfoddolwyr Clwb Ffermwyr Ifanc y Rhiw

ffotograffydd newyddion byd-enwog o Rhuddlan y mae wedi cyhoeddi llyfr amdano a bu Colin Evans yn sôn am hanes Ynys Enlli trwy'r blynyddoedd. Roedd ei sgwrs yn cynnwys profiadau ei deulu o ffermio a physgota ar yr ynys a'i gynlluniau ei hun ar gyfer datblygu adeiladau'r goleudy. I gloi'r gyfres bu Nerys Kimberley a Ken Fitzpatrick yn adrodd hanes eu mordaith 4,000 o filltiroedd dros foroedd geirwon yr Iwerydd o America i Bwllheli.

Er nad yw'r Capel eto mewn cyflwr digon da i gynnal cyfarfodydd rheolaidd, cynhaliwyd un oedfa fer yno ym mis Gorffennaf pan welwyd pedair cenhedlaeth o'r un teulu yn y gynulleidfa ac roedd yn bleser eu gweld yno. Arweiniwyd yr oedfa gan y Parchedig Eleri Jones, sy'n gwasanaethu Capel Bethesda, Rhoshirwaun.

Daeth nifer o aelodau newydd yn rhan o'r prosiect yn ddiweddar, a byddem wrth ein bodd petai mwy eto yn ymuno â'r gwaith. Os hoffech chi gynnig syniadau neu gael mwy o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â mi trwy e-bost – jenrowlands65@gmail.com. Gallwch hefyd gysylltu gyda Alun Jones, Cadeirydd Prosiect Plas Carmel: Ffôn 01758 760 295 / E-Bost: alundwyros@btinternet.com

Eglwys Llandegwning

Noddwyd prosiect i wella safle Eglwys Llandegwning. Eglwys wedi ei chysegro i Gwynin Sant yw hon ac sy'n dyddio yn ôl i ddechrau'r 19fed Ganrif. Mae'n adeilad trawiadol ac wedi cadw llawer o'i nodweddion cynnar yn dda

Dan arweiniad Cyfeillion Eglwys Llandegwning, roedd gwelliannau yn cynnwys gwaredu ffens haearn oedd yn amgylchynu'r fynwent. Roedd hi mewn cyflwr gwael a pheryglus a gosodwyd un newydd yn ei lle. Bu gwaith tirlunio hefyd gyda gwirfoddolwyr o Ysgol Botwnnog yn plannu coed cynhenid – hafan i bob math o fywyd gwyllt.



Am fwy o wybodaeth
am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy,
cysylltwch gyda Swyddog Prosiectau
AHNE Llŷn ar
01758 704 176.

Diweddariad ar brosiect **CHERISH**



Dr Toby Driver
Uwch Ymchwilydd (Arolwg Awyr)
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae prosiect newydd pum mlynedd gaiff ei ariannu gan yr UE o'r enw CHERISH (Hinsawdd, Treftadaeth ac Amgylchedd Riffiau, Ynysoedd a Phentiroedd) yn astudio treftadaeth arfordirol ynysoedd, pentiroedd a'r parth rhynglanwol ar hyd arfordiroedd Môr Iwerddon, gan edrych ar effeithiau erydu arfordirol a thywydd eithafol. Mae'r ddau bartner yng Nghymru

sef y Comisiwn Brenhinol a Phrifysgol Aberystwyth yn gweithio ar draws Llŷn yn edrych ar y bygythiadau i arfordir treftadaeth ar Ynys Enlli, Ynysoedd Tudwal ac yn Abersoch. Yn 2017 hedfanwyd dyfais sganio laser yn yr awyr ar gyfer Ynys Enlli ac Ynysoedd Tudwal, gan ganiatáu i archaeoleg ar y môr i gael ei fapio'n gywir am y tro cyntaf. Mae'r gwaith dilynol ar Ynys Enlli wedi golygu fod tîm CHERISH yn cofnodi'r archaeoleg sy'n erydu ar y culdir ger y llithrfa, mynd â'r mawn craidd o'r gwlypdiroedd i adfer tystiolaeth o'r hinsawdd yn y gorffennol a samplu dyddodion clogfeini a daflwyd gan stormydd ar y caeau gan y gwynt a'r tonnau.

Mae gan draeth y Warren ger Abersoch hefyd ei drysorau. Yn 2018, daeth set o olion traed anifeiliaid cyn-hanesyddol i'r golwg yn hynod o glir ar y traeth, oedd yn cynnwys ceirw a gwartheg oedd efallai yn dyddio yn ôl i 5-7,000 CC. Weithiau daw llongddrylliad pren o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r golwg ar ôl stormydd y gaeaf. Er hynny, cafodd ail longddrylliad oedd yn agosach at y marc dŵr isel ei gofnodi am y tro cyntaf yn 2018. Mae cofnodion lleol yn awgrymu mai enw'r llongddrylliadau yma oedd y Maria a'r Fossil, ddaeth i'r traeth yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond bydd arolwg gwyddonol pellach a gynlluniwyd i CHERISH yn taflu rhagor o oleuni ar eu hanes. Byddwn yn rhoi diweddariadau ar-lein a'u rhannu yn ein newyddlenni!

Cysylltwch â ni ar e-bost: cherish@rcahmw.gov.uk
Ewch i'n gwefan a dilyn CHERISH ar y cyfryngau cymdeithasol: www.cherishproject.eu
Facebook: CHERISH Project
Twitter: @CHERISHProj



**ALLWEDD
KEY**

-  **ATYNIADAU #ECOAMGUEDDFA**
#ECOAMGUEDDFA ATTRACTIONS
-  **LLWYBR ARFORDIR**
LLŶN COASTAL PATH
-  **CYLCHDEITHIAU**
CIRCULAR WALKS
-  **BWS ARFORDIR LLŶN (CODI A GOLLWNG TEITHWYR)**
LLŶN COASTAL BUS (PICK UP & DROP OFF POINTS)
-  **BWS ARFORDIR LLŶN (YLLWYBR)**
LLŶN COASTAL BUS (THE ROUTE)
-  **CYLCHDEITHIAU BEICS LLŶN**
LLŶN CIRCULAR CYCLE ROUTES
-  **ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL**
AREA OF OUTSTANDING NATURAL BEAUTY
-  **ARDAL CADWRAETH ARBENNIG**
SPECIAL AREA OF CONSERVATION
-  **CORS GEIRCH**
CORS GEIRCH NATURE RESERVE
-  **MYNYDDOEDD O DDIDDORDEB**
MOUNTAINS OF INTEREST
-  **FFYRDD A4**
A4 ROADS
-  **FFYRDD B4**
B4 ROADS
-  **RHEILFFORDD A GORSAF**
RAILWAY AND STATION

